

Taith Tua'r Gogledd

Bydd y daith hon yn mynd â chi ar hyd Lluwyr Gogledd Cymru ac arfordir trawiadol Gogledd Cymru, gan fwynhau'r bywyd gwylt rhyfeddol mae'r ardal hon yn ei ddenu.

Pryd: Ebrill - Hydref

Amser: 5-7 diwrnod

Môr
Cymru



Gwarchodfa
Natur Cemlyn Yr
Ymddiriedolaeth
Natur

Porth
Llechog

Twyni a
Thraeth
Gronant

Y Gogarth

Pier
Bangor

Tua'r Gogledd
ar hyd Lluwyr
Gogledd Cymru

Ynys
Llanddwyn

Porthdinllaen



Gwaith Powdur WT
Nature Reserve

Uwchmynydd

Morfa
Harlech



Dyfi Osprey Project

Gwarchodfa Natur Morfa Harlech, Gwynedd

Dechreuwch eich taith Tua'r Gogledd gydag ymweliad â Gwarchodfa Natur Morfa Harlech. Os ydych chi'n hoffi twyni tywod euraid, 'chewch chi mo'ch siomi. Cymerwch amser ar hyd y daith arfordirol drawiadol yma drwy'r warchodfa natur ddramatig a chyfareddol. Mae Morfa Harlech yn llecyn gwych i wylwio adar, yn enwedig yn ystod y gaeaf, gyda chyfle efallai i weld Elyrch y Gogledd a heidiau mawr o Chuiwellau a Hwyaidd Gwyllt. Hefyd mae cannoedd o Ylfinirod a Phiod y Môr yn ymgynnull ar y gwastadeddau llaid i'r gogledd. Cadwch lygad hefyd am Ddolffiniaid. Am olygfa banoramig o'r ardal, beth am fynd am dro i Castell Harlech ac edrych i lawr o'r waliau ar ardal a oedd yn fôr ar un adeg. Am fwy o wybodaeth ewch i:

<http://www.visitwales.com/attraction-search/attraction-search-results/attraction-search-details?id=1834694&latitude=1&longitude=1>

Gwarchodfa Natur Gwaith Powdwr, Gwynedd.

Y stop nesaf ar y daith Tua'r Gogledd yw Gwarchodfa Natur Gwaith Powdwr. Credwch neu beidio ond Gwaith Powdwr, ar un adeg, oedd y gwaith ffrwydron mwyaf yn Ewrop! Cafodd y safle ei gyflwyno'n rhodd i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gan ICI yn 1998 ac erbyn hyn mae'n cael ei reoli fel gwarchodfa natur. Mae'r warchodfa'n cynnig golygfeydd gwych o Eryri ac Aber Afon Dwyrdd, ac mae llawer o lwybrau ledled y safle gyda mynediad gwych. Mae cuddfan adar i weld bywyd gwyllt yn agos hefyd. Cadwch lygad am yr Ystlum Pedol Lleiaf, y Troellur, y Gwybedog Brith a'r Wiber. Am fwy o wybodaeth i ymwelwyr ewch i:

<https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/reserves/gwaith-powdwr>

Uwchmynydd, Gwynedd

Mae Uwchmynydd ym mhen draw de orllewin Penrhyn Llŷn, heibio i bentref tllus Aberdaron. Mae'n llecyn hardd a heddychlon lle mae bywyd yn ymddangos ychydig bach yn arafach. Mae Aberdaron yn fan cychwyn da i'r daith gyda golygfeydd arfordirol trawiadol. Cadwch lygad am y Frân Goesgoch, Llamhidyddion, Dolffiniaid a Morloi. Mae maes parcio yng nghanol pentref Aberdaron. Am fwy o wybodaeth i ymwelwyr ewch i:

<http://outdoorwales.com/en/list/detail/uwchmynydd>

Porthdinllaen, Gwynedd

Ewch ymlaen Tua'r Gogledd am oddeutu 14 milltir i Borthdinllaen a pheidiwch ag anghofio eich sbectolrych a'ch tywel ar gyfer y traeth! Mae'r pentref pysgota perffaith yma ar ddarn hynod drawiadol o draeth euraid a bydd y teulu cyfan yn mwynhau. Mae'r ardal hon yn enwog am Wenoliaid y Glennydd, Mulfrain, Piod y Môr ac adar eraill yr arfordir. Hefyd mae'r pentir hardd yma'n llecyn poblogaidd i Forloi Llwyd Atlantaid. Beth am snorcelu yma i gael gweld y Morwellt nodedig neu roi cynnig ar rwyf-fyrddio! Am fwy o wybodaeth i ymwelwyr ewch i:

<https://www.visitpowderia.info/porthdinllaen-143.aspx>

Ynys Llanddwyn, Ynys Môn

Mae'r stop nesaf ar y daith Tua'r Gogledd yn mynd â chi i ynys hudolus Llanddwyn! Bydd plant mawr a bach yn mwynhau archwilio'r ynys ddifyr yma. Ewch yno ar lanw isel am olygfeydd rhagorol o Eryri a Phenrhyn Llŷn. Ewch i weld y goleudy enwog a gweddillion yr eglwys hynafol sydd wedi'i chysegru i nawddsant cariadon Cymru, Santes Dwynwen. Gyda'r twyni a'r traeth, mae Ynys Llanddwyn yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol sydd hefyd yn cynnwys ardaloedd mawr o gors halen a gwastadeddau tywod arfordirol. Beth am archwilio'r pyllau creigiog, gwylwio'r cyfoeth o adar neu geisio cyfrif yr holl fathau amrywiol o flodau gwyllt? Am fwy o wybodaeth ewch i:

<https://naturalsourceswales/days-out/places-to-visit/north-west-isles/newborough-revisited/where-you-can-visit/ynys-llanddwyn/?lang=en>



Gwarchodfa Natur Cemlyn, Ynys Môn

Croeso i'r "em yng nghoron" Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Mae Gwarchodfa Natur Cemlyn yn werthfawr oherwydd ei rhinweddau golygfaol a'i bywyd gwylt unigryw. Mae'r ardal yr un mor boblogaidd ymhlith ymwelwyr cyffredinol â gwylwyr adar a naturiaethwyr. Mae'n cynnwys môr-lyn mawr, wedi'i wahanu oddi wrth y môr gan esgair drawiadol o ro mân, wedi'i chreu'n naturiol. Yn ystod misoedd yr haf, mae'n gartref i un o'r poblogaethau pwysicaf yng Nghymru o Fôr-wenoliaid, gan gynnwys Môr-wenoliaid pigddu, Môr-wenoliaid cyffredin a Môr-wenoliaid y Gogledd. Hefyd cadwch lygad am Ddolffiniaid Trwyn Potel, Llamhidyddion, Morloi Lluyd a Phîod y Môr. Am fwy o wybodaeth i ymwelwyr ewch i:

<http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/visiting/cemlyn>

Porth Llechog, Gogledd Ynys Môn

Mae pentref bychan Porth Llechog ar arfordir gogleddol Ynys Môn ac mae'n llecyn gwych i deuluoedd ar eu taith Tua'r Gogledd. Mae archwilio pyllau creigiog yn ffefryn mawr ymhlith trigolion lleol Porth Llechog ac ymwelwyr! Mae'r arfordir garw'n cynnwys rhai o'r creigiau hynaf ar y blaned - clogwyni a slabiau sy'n 570 miliun o flynyddoedd oed - anhygoel! Yn ogystal â'i ddaearog rhyfeddol, mae Porth Llechog hefyd yn cynnig teithiau cerdded arfordirol heriol a rhagorol. Mae'r ardal hefyd yn gartref i'r club golff mwyaf gogleddol yng Nghymru ac mae'n llecyn pysgota heb ei ail. Wrth archwilio, cadwch lygad am Lamhidyddion yr Harbur, Morloi, Adar Môr a Dolffiniaid Risso a Thwyn Potel! Am fwy o wybodaeth ewch i:

<http://www.gonorthwales.co.uk/things-to-do/bull-bay-beach-p376831>

Pier Garth, Bangor

Bydd y stop nesaf ar y daith Tua'r Gogledd yn mynd â chi i bier harddaf Cymru; Pier Garth! Ar ddiwrnod braf, gall ymwelwyr weld am filltiroedd dros y coetir ger Biwmares a thref hardd Bangor. A does dim un ymweliad â'r Pier yn gyflawn heb de prynhawn Cymreig

traddodiadol yn ystafell de'r Pafiliwn! Cadwch lygad am adar rhydio a Morloi wrth i chi gerdded i lawr y Pier. Am fwy o wybodaeth i ymwelwyr ewch i:

<https://www.visitbangor-pier-9467.htm>

Y Gogarth, Llandudno

Croeso i fynedd bychan Llandudno, sydd â chyfoeth o hanes naturiol ac o wneuthuriad dyn! Mae Parc Gwledig a Gwarchodfa Natur y Gogarth yn un stop cwbl fythgofiadwy ar y daith Tua'r Gogledd! Cadwch lygad am amrywiaeth o fywyd gwylt, gan gynnwys Gwylogod, Gwylanod Coesddu a Llursod, Cigfrain, Tylluanod Bach, Hebogau Tramor, Morloi, Llamhidyddion, Dolffiniaid a glöyn byw y glesyn serennog. A bydd pob ymwelydd yn siŵr o weld trigolion enwocaf y Gogarth ... y Geifr Kashmir gwylt a'u cotiau gwynion blewog a'u cynn peryglus.

Cofiwch fynd am dro i Bier Llandudno (y pier hiraf yng Nghymru), mynd am driw meun cwch pleser neu gael hwyl gyda'r teulu ar draeth y Gogledd. Am fwy o wybodaeth ewch i:

<https://www.visitllandudno.org.uk>

Prestatyn a Thwyni Gronant, Sir Ddinbych

Y stop olaf ar y Llwybr Tua'r Gogledd yw tri o draethau euraid hyfryd Prestatyn a Thwyni Gronant. Mae tref Prestatyn ar yr arfordir yn Sir Ddinbych, rhwng traethau hardd a bryntiau trawiadol. Dyma ddiweddglo perffaith i'r daith Tua'r Gogledd.

Mae'r promenâd yn cysylltu'r tri thraeth i greu llwybr syth, perffaith ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Ar ôl i chi gael hwyl ar y traeth, mae llawer mwy i'w weld a'i wneud yn yr ardal.

Cadwch lygad am yr unig boblogaeth sydd ar ôl yng Nghymru o Fôr-wenoliaid Bach yn magu, yn Nhwyni Gronant. Os ydych chi eisiau gwers hanes, ewch draw i'r Baddondy Rhufeinig neu Lwybr Clawdd Offa. Am fwy o wybodaeth ewch i:

<http://www.rhyl-prestatyn.co.uk/>



LIVING SEAS
MOROEDD BYW
CYMRU



bluestone
national park resort

